

Cofrestr Tai Cyffredin Caerffili Ffurflen Polisi Gosod Tai Lleol

Manylion yr ardal dan sylw (Rhif, Ffordd/Ffyrdd, Tref a Chod Post):

Hen Dafarn y Red Lion
Y Stryd Fawr / Pentwyn Road
Coed Duon
NP12 1BD

Manylion yr eiddo dan sylw (landlord, nifer, ystafelloedd gwely a math):

Pobl

- 11 x fflat 1 ystafell wely i ddau berson
- 4 x fflat 2 ystafell wely i dri pherson
- 1 x fflat 2 ystafell wely i'w rannu wedi'i glustnodi ar gyfer y Gwasanaeth Llety a Rennir i Bobl Ifanc (YPSAS)

Rheswm dros ofyn am bolisi gosod tai lleol:

Mae hwn yn ddatblygiad newydd yn hen dafarn y Red Lion ar y Stryd Fawr yng Nghoed Duon, a hoffem ofyn am Bolisi Gosod Tai Lleol ar gyfer pob fflat newydd sy'n cael ei osod ar y datblygiad hwn am y 12 mis cyntaf.

Gwelwyd cynnydd sylweddol yn nifer y bobl sy'n ddigartref ers pandemig COVID-19. Hoffem weithio gyda Thîm Datrysiadau Tai Cyngor Bwrdeistref Sirol Caerffili er mwyn dyrannu cartrefi yn uniongyrchol i deuluoedd sydd wedi'u heffeithio gan ddigartrefedd dan agenda Ailgartrefu Cyflym Llywodraeth Cymru, a helpu'r Cyngor i symud y rhai sydd mewn llety dros dro, ac sydd wedi cael eu heffeithio gan Ddigartrefedd am y tro cyntaf mewn llawer o achosion, yn eu blaenau.

Bydd y Polisi Gosod Tai Lleol yn helpu i geisio osgoi digartrefedd mynych drwy ddarparu llety parhaol mewn ardal ddaearyddol sydd â chysylltiadau trafnidiaeth cryf, cyfleoedd cyflogaeth a mynediad at wasanaethau cefnogi.

Bydd angen i ni greu amgylchedd lle gall pobl agored i niwed, sydd angen cefnogaeth a chymorth i sicrhau eu lles, ffynnu. Rhaid i ni fod yn ymwybodol o anghenion a phwysau cymunedol unigolyn wrth ddyrannu'r cartrefi hyn.

Nod y Polisi Gosod Tai Lleol yw creu cymuned gytbwys, a hybu'r broses o ddyrannu cartrefi yn uniongyrchol i ymgeiswyr digartref. Drwy wneud hyn bydd yn cynorthwyo'r Cyngor i gyflawni ei amcanion o leihau'r amser a dreulir mewn llety dros dro neu'n defnyddio llety dros dro, a gweithredu agenda Ailgartrefu Cyflym.

Crynodeb o'r sail dystiolaeth i gefnogi polisi gosod tai lleol:

Mae'r Red Lion yn ddatblygiad gweladwy, uchel iawn ei broffil, ar y Stryd Fawr yng Nghoed Duon.

Mynegir pryder â phob datblygiad ynglŷn â'r effaith y bydd hyn yn ei gael ar y gymuned bresennol.

Yn ystod y 12 mis diwethaf gwelwyd cynnydd yn nifer y troseddau y rhoddwyd gwybod amdanynt yng nghyffiniau'r Stryd Fawr yng Nghoed Duon. Roedd y troseddau hyn yn cynnwys ymddygiad gwrthgymdeithasol (cynnydd o 37%), troseddau rhywiol treisgar (cynnydd o 26.7%) a throseddau trefn gyhoeddus.

Mae Pobl yn rheoli cartrefi eraill yn yr ardal hon hefyd, ac mae wedi nodi ei dueddiadau ei hun, sy'n cynnwys cynnydd mewn trais a throseddu sy'n gysylltiedig â chyflyrau iechyd meddwl a chamddefnyddio sylweddau.

Yn aml iawn mae heriau unigryw yn ymwneud â chreu ymdeimlad o gymuned mewn datblygiad newydd. Yn y 12 mis cyntaf yn aml iawn mae cyfradd ymddygiad gwrthgymdeithasol uwch na'r cyfartaledd, a mwy o alw am wasanaethau gennym ni fel landlord.

Mae mwy o risg o ddigartrefedd mynych lle nad yw'r person/teulu yn gallu cael mynediad at waith a gwasanaethau cefnogi.

Amcan y polisi gosod tai lleol:

- Sicrhau ein bod yn creu cymuned gytbwys.
- Atal unrhyw broblemau rheoli tai rhag codi, a chadw enw da fel landlord cymdeithasol.
- Lleihau digartrefedd yn y fwrdeistref sirol, ac ailgartrefu pobl mewn ardal sy'n debygol o leihau digartrefedd mynych.

Cyfyngiadau i'w rhoi wrth osod tai:

Y Gwasanaeth Llety a Rennir i Bobl Ifanc (YPSAS) – dyrannu uniongyrchol drwy'r Tîm YPSAS i ymgeiswyr â chysylltiad lleol â Chaerffili.

Un trosglwyddiad rheoli mewnol i Pobl.

Byddwn yn ystyried rhieni sengl neu gyplau â hawl i weld plant ar gyfer fflatiau 2 wely, ar yr amod y gellir cynnal/fforddio tenantiaeth.

Rydym yn cynnig meini prawf dyrannu safonol y Polisi Gosod Tai Lleol ar gyfer datblygiadau newydd (isod). Er hyn, byddwn yn gweithio gyda'r Tîm Datrysiadau Tai er mwyn dyrannu'n uniongyrchol ar gyfer y rhan fwyaf o'r cartrefi newydd yn y datblygiad. Mae'n bosibl na fydd rhai ymgeiswyr yn bodloni'r meini prawf isod, ond byddwn yn trafod enwebiadau ar sail achosion unigol ac yn gweithio gyda'r Tîm Datrysiadau Tai er mwyn sicrhau bod y gefnogaeth gywir ar gael. Yn ystod y broses ddyrannu, rhaid i ni ystyried y cydbwysedd, a sicrhau bod cyfuniad o breswylwyr newydd sy'n gallu byw yn gytûn yn y gymuned newydd hon.

Gwelwyd cynnydd sylweddol yn nifer yr achosion o ddigartrefedd ers pandemig Covid-19. Mae hyn yn ei dro wedi arwain at gynnydd yn nifer yr unigolion a'r teuluoedd sydd mewn llety dros dro. O ganlyniad i'r argyfwng costau byw sydd wedi effeithio ar gartrefi yng Nghaerffili, ac ar hyd a lled y Deyrnas Unedig, mae'r effaith yn waeth ar bobl sy'n byw mewn llety argyfwng a llety dros dro.

Ein nod fel rhan o'r cytundeb hwn yw cynnig cartrefi i bobl sydd mewn llety dros dro, neu sicrhau nad yw pobl yn gorfod mynd i lety dros dro.

Byddwn yn ystyried ymgeiswyr sy'n rhoi neu'n derbyn cefnogaeth yn ardal y Stryd Fawr yng Nghoed Duon, y rhai sy'n gyflogedig (neu'n chwilio am waith) yn yr ardal a/neu'r rhai sy'n dibynnu ar y rhwydwaith cludiant cyhoeddus lleol â'i gysylltiadau er mwyn mynd i waith neu ddarparu cefnogaeth.

Byddwn hefyd yn ystyried ymgeiswyr sydd angen / eisiau byw yn yr ardal, a lle maent wedi bod mewn llety dros dro neu'n defnyddio llety dros dro i gefnogi'r Cyngor i gyflawni ei amcanion strategol i leihau amser / lleoliadau mewn llety dros dro brys ac fel rhan o'r agenda Ailgartrefu Cyflym.

Dim ymgeiswyr â phroblemau camddefnyddio sylweddau arwyddocaol yn ystod y 18 mis diwethaf:

Eglurder ynglŷn â dehongli telerau

Gall camddefnyddio sylweddau arwyddocaol gynnwys amhariad neu ofid arwyddocaol a amlygir gan un (neu fwy) o'r canlynol, yn digwydd yn ystod cyfnod o 12 mis:

- Defnydd rheolaidd o sylweddau yn arwain at fethiant i gyflawni ymrwymadau pwysig yn y gwaith, yr ysgol neu'r cartref (e.e. absenoldebau aml neu berfformiad gwael yn y gwaith sy'n gysylltiedig â defnyddio sylweddau; absenoldebau, ac achosion o wahardd a diarddel o'r ysgol sy'n gysylltiedig â sylweddau; esgeuluso plant neu gartref).
- Defnydd rheolaidd o sylweddau mewn sefyllfaoedd peryglus (e.e. gyrru cerbyd neu weithredu peiriant dan ddylanwad sylweddau).
- Problemau cyfreithiol rheolaidd sy'n gysylltiedig â sylweddau (e.e. arestio am ymddygiad afreolus sy'n gysylltiedig â sylweddau).
- Defnydd parhaus o sylweddau er gwaethaf problemau cymdeithasol neu ryngbersonol parhaus neu reolaidd sy'n cael eu hachosi neu eu gwaethygu gan effeithiau'r sylwedd (e.e. cweryla â chymar ynglŷn â chanlyniadau bod dan ddylanwad sylwedd, cwmpo mas yn gorfforol).

Dim ymgeiswyr sydd â geirda tenantiaeth gwael yn y 3 blynedd ddiwethaf mewn cysylltiad ag ymddygiad gwrthgymdeithasol, gan gynnwys achosion lle maent wedi cael y canlynol: gwaharddeb, gorchymyn adennill meddiant, hysbysiad ceisio meddiant, hysbysiad israddio neu orchymyn israddio, hysbysiad Adran 21 o ganlyniad i ymddygiad gwrthgymdeithasol, gorchymyn ymddygiad troseddol, hysbysiad gwarchod y gymuned, gorchymyn cau).

Mae angen i ymgeiswyr sy'n dod drwy'r cynllun digartrefedd gael geirda cadarnhaol gan y tîm cyngor ar dai ynglŷn â'u hymddygiad mewn llety dros dro.

Rhaid i ymgeiswyr o'r rhestr aros gyffredinol sy'n methu â dangos hanes cadarnhaol o gynnal tenantiaeth drwy eirda landlord gael naill ai:

- i. Geirda cadarnhaol gan weithiwr cefnogi proffesiynol perthnasol ynglŷn ag ymddygiad cyffredinol, neu
- ii. Geirda gan weithiwr proffesiynol arall sy'n ei adnabod yn bersonol.

Dylid cysylltu â'r tîm digartrefedd cyn unrhyw neidiau er mwyn sicrhau na fu unrhyw newid yn amgylchiadau ymgeisydd a allai ei wneud yn gymwys dan y Polisi Gosod Tai Lleol.

Dim ymgeiswyr ag euogfarnau heb eu disbyddu am droseddau treisgar, dwyn/byrgleriaeth a/neu droseddau cyffuriau. Mae canllawiau yn ymwneud â Deddf Adsefydlu Troseddwyr 1974 (a ddiwygiwyd yn 2014) i'w gweld ar waelod y ddogfen hon.

Manylion unrhyw ymgynghori â'r gymuned:

Mae'r cynghorwyr lleol yn ymwybodol o'r datblygiad.

Crynodeb o'r asesiad o'r effaith ar gydraddoldeb:

Nid yw'r Polisi Gosod Tai Lleol yn cael effeithiau negyddol. Ni fydd ymgeiswyr sydd ag anabledd yn cael eu cau allan. Bydd y Polisi Gosod Tai Lleol yn helpu i greu cymuned fwy cytbwys â chyfuniad cadarnhaol o breswylwyr â gwahanol nodweddion a chefnidiroedd.

Dyddiad gweithredu:

Nid oes preswylwyr ar hyn o bryd gan nad yw'r safle wedi'i gwblhau.

Dyddiad terfynu:

12 mis ar ôl cwblhau'r fflat olaf.

Amllder adolygu:

8 mis ar ôl i'r safle cyfan fod â phreswylwyr.

Trefniadau monitro ac adolygu:

Crynodeb o'r adolygiad i'w gyflwyno i'r Cyngor.

Y swyddog sy'n gofyn:

Enw: Andrew Frame

Swydd: Rheolwr Tai

Sefydliad: Pobl

Dyddiedig:

24/02/22

Penderfyniad y panel:

Cymeradwywyd

Dyddiedig:

25/04/2022

Manylion y penderfyniad: